# RHODD YMWELWYR ...sut i arwain

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

Mae prosiect rhodd ymwelwyr yn ffordd i fusnesau a digwyddiadau drefnu i gasglu rhoddion ariannol gan gwsmeriaid er mwyn ariannu prosiectau cymdeithasol ac amgylcheddol lleol. Cynllun yw hwn sydd wedi'i seilio ar y syniad bod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon cyfrannu rhywbeth tuag at gadwraeth y lleoedd y maent yn mwynhau eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.


Mae cynllun codi arian ymwelwyr yn hollol wirfoddol ac felly mae'n sylfaenol wahanol i 'Dreth Twristiaeth'. Mae 'Rhodd Eryri' yn gynllun peilot sy'n cael ei redeg trwy Arloesi Gwynedd Wledig, a gynlluniwyd i ddechrau am 18 mis, cyn ceisio ei drosglwyddo i gorff addas arall.

## * Peilot Rhodd Eryri = Llwyddiant

SNOWDONIA GIVING RHODD ERYRI

Codwyd bron i £25,000 trwy roddion a pheth arian cyfatebol gan y Parc Cenedlaethol. Mae hyn wedi ariannu 2 gynllun - cwrs sgiliau awyr agored i bobl ifanc lleol a gwelliannau llwybr troed mynydd sydd eu hangen ar yr Wyddfa.

Profodd y cyfnod peilot hwn bod y cynllun yn gweithio a bod ymwelwyr yn hapus i gyfrannu. Bellach, mae cyfle gwych i ddatblygu'r cynllun ymhellach i gwrdd â'i botensial llawn, ac i gymunedau bach eraill yn Eryri a'r ardaloedd cyfagos sefydlu eu cynlluniau rhodd ymwelwyr eu hunain.




Yn ystod bron i 2 flynedd, mae dros 50 o fusnesau wedi dod yn rhan o Rhodd Eryri. ✓



"Mae menter Rhodd Eryri yn ffordd wych i ni i gyd helpu i warchod ein tirluniau naturiol hardd. Mae dyfodol twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn dibynnu ar barhau i feithrin ein hamgylcheddau a'n cymunedau lleol ac mae'n bleser i ni fod yn rhan o brosiect fel hwn."

CAMU I'R COPA ALWAYS AIM HIGH EVENTS
CWMNI DIGWYDDIADAU TRIATHLON / CHWARAEON, GOGLEDD CYMRU

"Rydym am fod yn rhan o'r cynllun hwn oherwydd teimlwn fod Eryri yn lle hudolus sydd angen cefnogaeth i sicrhau ei fod yma am genedlaethau i ddod, a gallwn ni gyd gymryd rhan weithgar i wneud i hyn ddigwydd."

TWO FEET TWO WHEELS
TEITHIAU TYWYS DYDD, ERYRI

## Y Potensial

Petai pob ymwelydd i Barc Cenedlaethol Eryri, mewn blwyddyn, yn rhoi 25c byddai'n arwain at bron i £1 filiwn o gyllid ar gyfer yr amgylchedd, cadwraeth a chymuned leol.

(...yn seiliedig ar 3.89 miliwn o ymwelwyr yn 2015)





SNOWDONIA ERYRI

Ymwelodd dros 7 miliwn o bobl â Gwynedd yn ystod 2016 - cynnydd o 3.2% ar y flwyddyn flaenorol.


peilota...dysgu...rhannu

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG MENTER MÔN


DYDDIAD DIWEDD Y PROSIECT Mai 2018
RHEOLWR Y PROSIECT Rhian Hughes
Pecyn Cymorth Arloesi Gwynedd Wledig #003

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

# RHODD YMWELWYR ...camau tuag at lwyddiant



## 1. Rhoi'n Hawdd!

- Mae 'optio'i mewn' drwy'r we yn ffordd wych o godi arian. Cododd un gwesty bron i £4,000 ers dechrau'r Cynllun, trwy gynnig opsiwn i ychwanegu £1 y taliad ar-lein wrth archebu. Mae gwesty arall yn codi 50c ar gyfer WiFi ac mae hyn wedi codi dros £1,000...syml + effeithiol.
- Dangosodd cynlluniau eraill bod 95% o bobl yn fwy na pharod i gyfrannu trwy'r dull hwn.

*"Gall busnesau manwerthu a bwyd godi arian trwy 'noddi nwyddau'. Er enghraifft, gellir ychwanegu swm bach at bris cynnyrch penodol. Gall busnesau fod yn ddychmygus iawn gyda'r math hwn o godi arian, i annog cwsmeriaid i wneud cyfraniad."*

Nurture Lakeland 2013, Visitor Giving: A Toolkit for Destination Organisations



- 'Ychydig ac aml'...y mwyaf yn y byd o fusnesau lleol sy'n cymryd rhan weithredol, gorau oll - nifer uwch o roddion, a fydd yn ôl eu natur yn fach, ond yn ddelfrydol yn cael ei hailadrodd pob ymweliad neu bryniant.
- Mae hyblygrwydd yn allweddol, gyda'r busnesau sy'n cymryd rhan yn dewis pa ddull rhodd sy'n gweithio orau iddynt. Gall cynllun gynnig ystod o opsiynau 'rhodd' y gellir eu teilwra i weddu i werthoedd, ethos a brand y busnesau.
- Marchnata da mewn mannau cyswllt - ymwybyddiaeth o'r cynllun ac anogaethau i roi arian ar yr adeg fwyaf perthnasol, er enghraifft, wrth archebu, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau, a phan fyddwch yn gadael / adolygu.

**Syniad Da:**

Nid oedd blychau casglu ac amlenni yn gweithio fel ffordd o gasglu rhoddion - mae rhoi ar-lein yn llawer mwy effeithiol!

Gwyliwch ein ffilm am Rodd Eryri →




## 2. Cefnogaeth Wych...

- Wedi'u hysbrydoli a'u hymgysylltu ...mae'n hanfodol bod busnesau lleol yn arwain, gan ymgorffori 'dull partneriaeth' trwy ddeall y manteision go iawn y gall cynllun o'r fath eu cyflwyno i'w busnes a'r gymuned fusnes gyfan, yn ogystal â'r gymuned a'r amgylchedd lleol ehangach.
- Mae cefnogaeth i fusnesau yn bwysig, yn enwedig ar y cychwyn cyntaf i'w gwneud mor hawdd â phosib i bob busnes ddod yn rhan o'r cynllun. Er enghraifft, pwynt cydgysylltu, copi wedi ei ysgrifennu ymlaen llaw, a delweddau ar gael i'w cynnwys ar wefannau busnesau eu hunain, deunyddiau marchnata printiedig, ayb.
- *I redeg y cynllun peilot, cymerodd tua 2 ddiwrnod yr wythnos o amser person penodol.*
- Mae hefyd angen cefnogaeth weinyddol, TG, marchnata, cyfreithiol ac ariannol.

am ragor o wybodaeth am hyn, ewch i

www.arloesigwyneddwledig.com
@ArloesiGwyneddWledig
@ArloesiGwynedd

## 3. Mwynhewch, rhowch, arbedwch, ailadroddwch, ailadroddwch, ailadroddwch!

- Mae ymwelwyr eisiau gwybod ble mae eu harian yn mynd a pham, yn ogystal â chael eu diweddaru yn ddelfrydol ar yr effaith gadarnhaol y mae'r cyfraniadau wedi ei wneud. Mae angen tryloywder llawn ynghylch rhoddion ac unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig i sicrhau lefelau uchel o ymddiriedaeth.
- Mae cysylltu a chyfathrebu cyfredol ar yr achosion/prosiectau a gefnogir yn helpu i gadw'r rhoddion yn llifo!
- Cydnabod a diolch...mae ymwelwyr a busnesau eisiau rhannu eu cyfranogiad a gall hyn greu cylch rhyfeddol o ***ymwybyddiaeth – rhoi - rhannu.*** Gwneir hyn orau trwy gyswllt personol, trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol, ond gallai hefyd fod ar bwynt gweithgaredd, er enghraifft, 'cerrig rhoddion' ar lwybrau. Helpodd cystadlaethau 'Hoffi a Rhannu' a gynhaliwyd gan y busnesau i gynyddu dilynwyr a rhyngweithio ar gyfryngau cymdeithasol.



SNOWDONIA GIVING RHODD ERYRI

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

NDA Nuclear Decommissioning Authority

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru Welsh Government